

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI A GYNHALIWDYD NOS FAWRTH,

8fed MAWRTH 2022 AM 7.00 O'R GLOCH YNG NGHANOLFAN TALYSARN

AC YN RHITHIOL DROS ZOOM.

PRESENNOL – Dafydd Thomas (Nebo - Cadeirydd), Gwyndaf Roberts (Llanllyfni), Barry Bracegirdle, Ceri Owen, Erfyl Williams (Penygroes), Peter Bridges, Siân Dafydd, Gareth Jones, Harry Owen (Talysarn). Zoom – Justin Davies (Penygroes), Ffion Jones (Nantlle) a Cynghorydd Judith Humphreys.

YMDDIHEURIADAU – Dylan Herbert, OP Huws, Heledd Gwilym a Hefina Roberts

Ni dderbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dilwyn Lloyd a Craig ab Iago.

2. DATGAN BUDDIANT – datganwyd gan Dafydd Thomas, Gwyndaf Roberts, Peter Bridges a Ffion Jones bod diddordeb ganddynt yn y cyfraniadau ariannol gan eu bod yn aelodau o bwyllgorau yn ymwneud a rhai oedd wedi gwneud cais am gyfraniad.

3. CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD 8 CHWEFROR 2022 – cynigiodd Erfyl ac eiliodd Harry fod y cofnodion yn gywir a cytunodd pawb.

4. MATERION YN CODI O'R CYN GOFNODION AC YMATEBION CYNGOR GWYNEDD – Adroddodd Siân bod ambell i dwll yn y ffyrdd yn Talysarn wedi eu cau. Roedd y clerc wedi cael ymateb gan Gyngor Gwynedd yn adrodd bod y ffens sydd wedi malu ar y llwybr rhwng Talysarn a Penygroes yn mynd i gael ei thrwsio yn ystod mis Ebrill. Cae Dolbebin – cynigiodd Siân y dylid cael is-bwyllgor i drafod y mater hwn a cytunodd pawb yn unfrydol i hyn. Y clerc i drefnu amser a dyddiad sydd yn gyfleus i bawb.

5. ADRODDIAD GAN Y CYNGHORWYR SIR – roedd pawb wedi derbyn copi o adroddiad Judith ymlaen llaw. Holodd Judith os oedd gan unrhyw un o gynghorwyr Penygroes sylwadau i'w roi ymlaen ynglŷn â'r syniad a oedd wedi ei dderbyn am le parcio yn Cwtin. Gofynnwyd i Nia ail-yrru yr epost o gwmpas eto ac os oedd gan unrhyw un sylwadau yna eu pasio ymlaen i Nia. Soniodd hefyd ynglŷn â sefyllfa rheoli stryd a bod angen cysylltu gyda Galw Gwynedd yn syth gydag unrhyw gwynion am faw ci ayyb ar y strydoedd a mi ddaw rhywun allan i'w lanhau. Dywedodd hefyd bod Timau Cymunedol yn cael eu lawnsio yn fuan. Holodd Ceri os oes yna gynlluniau o gwbl i gael biniau ail-gylchu ar y stryd yn Penygroes – bin wedi ei rannu yn ddau fel sydd ar strydoedd Caernarfon a llefydd eraill. Roedd Judith am holi am hyn. Diolchwyd i Judith am baratoi yr adroddiad ac am ei gwaith.

6. CYFARFODYDD IS-BWYLLGORAU – IS-BWYLLGOR CLWB IEUENCTID, 21 CHWEFROR 2022 – Adroddodd Dafydd beth oedd wedi ei drafod yn y cyfarfod hwn gan bwysleisio mai ar hyn o bryd cael safle addas ar gyfer y caban yw'r prif broblem. Adroddodd y bydd y gyllid ar gyfer staffio y sesiynau yn dod gan y Cyngor Cymuned. Dywedwyd buasai'r Cyngor Cymuned yn ariannu 20 sesiwn y flwyddyn a fydd yn costio £6000 gyda'r sesiynau yn cychwyn yn Medi 2022 ac efallai ambell sesiwn blasu cyn hyn. Dywedwyd hefyd y buasai Cyngor Gwynedd yn rhoi rhai o'u staff nhw i wneud rhai sesiynau felly mwyaf tebyg buasai yna fwy nag 20 sesiwn yn cael ei gynnal. Adroddodd Judith bod Sion Bryn Roberts yn dod nôl i edrych ar safleoedd a gofynnwyd iddynt gysylltu i adael i'r Cyngor Cymuned wybod pryd er mwyn i rywun gael mynd gyda nhw i ymweld.

CYFARFOD GYDA CLWB PEL-DROED TALYSARN CELTS, 3 MAWRTH 2022 – cafwyd cyfarfod gyda pwyllgor y CPD er mwyn trafod y brydles ar yr ystafelloedd newid ayyb. Adroddodd Dafydd ar beth a

drafodwyd ac mai y Cyngor Cymuned sydd yn gyfrifol am yr ystafelloedd newid. Adroddwyd bod angen cario allan profion ar y trydan a'r dŵr yno a gobeithio y bydd trydanwr yn dod allan o fewn yr wythnosau nesaf i wneud y profion trydan. Adroddodd Dafydd hefyd ei fod wedi llythyru Daniel Lewis Cyngor Gwynedd er mwyn rhoi pwysau arnynt i symud ymlaen gyda'r brydles ar gyfer y cae. Y CPD methu symud ymlaen gyda eu cynlluniau heb y brydles. Cafwyd cais gan y CPD i roi JCB ar y safle i symud y twmpath sydd yno. Cafwyd pleidlais a cytunwyd yn unfrydol i ganiatau y cais hwn ac hefyd cytunwyd yn unfrydol mai'r Cyngor Cymuned fydd yn talu am y profion trydan a dŵr yn yr ystafelloedd newid.

7. TAFLEN ARIANNOL A CHYLLID – pawb wedi derbyn copi o'r gyllid cyn y cyfarfod i edrych drosti.

CYFRANIADAU ARIANNOL – adroddwyd bod 17 cais wedi dod i fewn (13 lleol a 4 o du allan y gymuned) . Cynigwyd yn dilyn trafodaeth mewn is-bwyllgor cyllid i roi £170 yr un i'r rhai lleol a £50 yr un i'r rhai o'r tu allan. Cytunwyd yn unfrydol i gario ymlaen gyda y taliadau hyn.

LWFANS CYNGHORWYR – pawb wedi derbyn y ffurflenni a wedi eu pasio yn nôl i'r clerics yn datgan nad ydynt am dderbyn y lwfans.

RHEOLIADAU ARIANNOL – diolchwyd i Siân am edrych dros y rheoliadau. Trafodwyd a penderfynwyd y dylid cynnal is-bwyllgor cyllid i drafod beth yr oedd Siân wedi ei nodi fel efallai y dylid ei newid. Cytunwyd gyda hyn - Nia i drefnu dyddiad ag amser ar gyfer is-bwyllgor.

8. LLWYBRAU A MYNWENTYDD – trafodwyd mewn amser y bydd angen meddwl am ymestyn Mynwent Gorffwysfa Llanllyfni. Awgrymwyd i edrych ar y gofrestr mynwent i weld faint o feddi newydd sydd wedi eu defnyddio yn y blynyddoedd diwethaf. Bydd proses bendant i'w dilyn pan yn gwneud hyn. Hefyd bydd yn rhaid cyfiawnhau cadw arian yn nôl felly bydd rhaid cael amcan o faint o amser sydd hyd nes bydd y fynwent yn llawn. Penderfynwyd y bydd hyn i'w drafod yn yr is-bwyllgor mynwentydd nesaf. Holodd Barry ynglŷn â chae Macpela ac os oedd posib edrych ar gael ffens wedi ei gosod yno ac yna rhentu y cae allan. Trafodwyd y mater a daethpwyd ac yn dilyn pleidlais penderfynwyd yn unfrydol i ffensio.

9. MATERION PENTREFI – PENYGROES – adroddwyd bod y cerbiau yn Trem yr Wyddfa dal heb gael eu sortio. Gofynnwyd os oes posib trefnu i'r steps wrth Wynnstay i fyny at y llwybr gael eu glanhau gan eu bod yn llithrig a peryglus. Adroddwyd hefyd bod y ffens dros dro sydd wrth yr telephone exchange a gyda'r tai newydd yn disgyn i'r ffordd o hyd yn enwedig pan fo'i yn chwythu. Angen cysylltu gyda Cyngor Gwynedd, Grŵp Cynefin a Williams Home am hyn. Adroddodd Justin nad yw'r braced ar gyfer y baneri byth wedi eu gosod yn nôl a'i bod yn bwysig eu bod yn eu lle gan bod y baneri yn mynd fyny yn fuan mis Mai. **TALYSARN** – Ffordd Hyfrydle a Station Road mae eiddew ar y wal yn dod allan i'r ffordd ac angen eu torri. Ffordd B4418 pyllau dŵr yno yn aml am bod y draeniau wedi blocio i gyd o'r parc i ben Ffordd Hyfrydle. Y llwybr o Ffordd Hyfrydle i Ffordd Rhiwlas wedi cau i fyny i gyd (Harry am gysylltu gyda'r contractwyr i ddod i'w dorri). Cylchdro Ffordd Nantlle – dŵr yn casglu yno. **LLANLLYFNI** – draen ar Lôn Ddŵr wedi suddo unwaith eto. **NEBO** – baw cŵn yn ofnadwy ymhob man o hyd. Nia i gysylltu gyda'r adrannau yn y Cyngor am y materion a godwyd yma.

10. ETHOLIADAU 5ED MAI 2022 – adroddwyd y bydd y pecynnau yn cael eu gyrru i'r clerics yn fuan i'w rhannu allan.

11. YMATEB WYN THOMAS BWRDD IECHYD I'R LLYTHYR YNGLŷN Â MEDDYGFA CORWEN HOUSE – roedd pawb wedi derbyn copi o'r ymateb oedd wedi ei dderbyn ar farn oedd nad oedd y llythyr yn ateb yn iawn felly yn ddi-bwrpas.

12. CYFLWR FFYRDD YR ARDAL AC EBOST JUSTIN YNGLŶN Â TERAS EIFION TALYSARN – adroddodd Justin ei fod wedi bod mewn cysylltiad gyda Sian Gwenllian ac wedi derbyn ymateb heddiw a bydd yn cael cyfarfod gyda nhw. Justin cytuno i adrodd yn nôl i'r cyngor yn dilyn y cyfarfod.

13. LLYTHYR GAN DYFRIG SIENCYN YNGLŶN Â'R MENTER IAITH – roedd pawb wedi derbyn copi o'r llythyr ac o'r farn nad oedd yn ymateb i beth a yrrwyd ato yn y lle cyntaf. Adroddodd Justin ei fod wedi siarad gyda Ben Gregory am y Menter Iaith a bod Ben wedi cynnig do di gyfarfod er mwyn trafod. Cytunwyd i wahodd Ben i gyfarfod mis Ebrill.

14. DIWEDDARIAD PARC SGLEFRIO A TRAC BMX TALYSARN – hyd yn hyn nid oes dim ymateb wedi eid dderbyn felly dim i'w drafod ar hyn o bryd.

15. DIWEDDARIAD CAE DOLBEBI, TALYSARN – cynigwyd ac eiliwyd y dylid cynnal is-bwyllgor i drafod hyn ymhellach. Cytunodd pawb.

16. CWYNION AR Y TUDALENAU CYMDEITHASOL A'R POLISI O DDELIO GYDA'R FATH GWYNION – adroddwyd bod aelodau o'r cyhoedd yn rhoi cwynion ar dudalennau cymdeithasol. Teimlad yw os nad yw cwyn yn dod yn swyddogol i'r Cyngor Cymuned yna nid oes angen cymeryd sylw o beth sydd yna cael ei roi ar y tudalennau hyn. Yn dilyn trafodaeth teimlir y dylid cynnal is-bwyllgor i'w drafod a gofyn i Unllais am dempled o bolisi am hyn i gael edrych i weld os oes rhywbeth y gellir ei wneud.

17. CEISIADAU CYNLLUNIO - C22/0026/22/HY – Ysgol Dyffryn Nantlle – arddangos arwydd – nid oedd dim gwrthwynebiad i'r cais hwn.

18. GOHEBIAETH – cafodd pawb gyfle i weld y gohebiaeth a rhoi sylw – ond nid oedd dim yn codi ohonynt.

- Unllais – Ymweliadau safle ar draws y Gogledd – Rachel Carter
- Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023 – cyfraniad ariannol
- Cyfoeth Naturiol Cymru – Cod Cefn Gwlad: cyngor i reolwyr tir

19. MATERION ARIANNOL – cytunwyd i dalu popeth yma.

- Dŵr Cymru – Dŵr Mynwentydd Llanllyfni - **£106.99**
- Zurich – Yswiriant blynyddol - **£1553.25**
- Unllais Cymru – Aelodaeth blynyddol 22/23 - **£711**
- Canolfan Talysarn (defnydd ar gyfer cyfarfodydd) - **£100**
- Nia Jones - Ffôn a rhyngwyd - **£25.00**
- Nia Jones - Zoom - **£14.39**